

Mae Pwyllgorau Rheoli Gwirfoddol yn rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i ddarparu Gofal Plant Allysgol hanfodol a fforddiadwy i blant a theuluoedd yn eu cymunedau, gan ganiatáu i glybiau gael eu llunio a'u harwain gan eu defnyddwyr gwasanaeth eu hunain ac aelodau o'r gymuned.

Mae dros 900 o aelodau pwyllgor gwirfoddol yn rheoli Clybiau Allysgol ledled Cymru, gan gefnogi 16,500 o blant a'u teuluoedd. **Diolch. Ni fyddai Cymru'n gallu gwneud hyn heboch.**

Mae clybiau a redir yn wirfoddol yn:

- Grymuso cymunedau i ddiwallu anghenion cymdeithasol – gan alluogi plant i chwarae a chymunedau i ffynnu
- Creu cyfleoedd cyflogaeth/gwirfoddoli/hyfforddiant lleol
- Meddu ar ystod o arbenigedd/cefnidiroedd i sicrhau cynhwysiant, ansawdd a chynaliadwyedd
- Ail-fuddsoddi elw mewn profiadau staff a phlant
- Cael mwy o fynediad at ariannu
- Galluogi hawl plant i chwarae, tra'n defnyddio adeiladau cymunedol

Fodd bynnag, rydym yn deall nad hon yw'r swydd hawsaf bob amser, ar ben ymrwymadau gwaith a theulu ac rydym wedi llunio'r adnodd hwn i gyfeirio at y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i'ch helpu i gyflawni eich rôl.

**1. Deall eich strwythur cyfreithiol** a'ch cyfrifoldebau a sicrhau eich bod wedi cofrestru'n gywir ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae sefydliadau a arweinir gan bwyllgorau yn cynnwys cymdeithasau anghorfforedig, cwmnïau cyfyngedig trwy warant, sefydliadau corfforedig elusennol a chyrrff llywodraethu ysgolion. Mewn achosion o'r fath, y Person Cofrestredig i bob pwrpas yw'r pwyllgor, a rhaid enwebu Unigolyn Cyfrifol ar ran y sefydliad. Enwebwch o leiaf ddau Unigolyn Cyfrifol i sicrhau, y gall y gosodiadau barhau i weithredu os bydd un yn ymddeol o'ch pwyllgor. Gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs eich helpu i adolygu eich strwythur rheoli a'ch helpu i bontio i'r strwythur mwyaf priodol, gan gynnig y warchodaeth fwyaf bosibl i aelodau'r pwyllgor.

Voluntary Management Committees give their time and expertise to deliver essential and affordable Out of School Childcare for children and families in their communities, allowing clubs to be shaped and led by their own service users and community members.

Over 900 volunteer committee members manage Out of School Clubs across Wales, supporting 16,500 children and their families. **Thank you. Wales couldn't do it without you.**

Voluntary run clubs:

- Empower communities to meet social needs - enabling children to play and communities to prosper
- Create local employment/volunteering/training opportunities
- Have a range of expertise/backgrounds to ensure inclusion, quality and sustainability
- Re-invest profits into staff and children's experiences
- Have greater access to funding
- Enable children's right to play, whilst utilising community buildings

However, we understand that this is not always the easiest job, on top of work and family commitments and have created this resource to signpost to the help and support that is available to help you undertake your role.

**1. Understand your legal structure** and responsibilities and ensure you are registered correctly with Care Inspectorate Wales (CIW). Organisations led by committees include unincorporated associations, companies limited by guarantee, charitable incorporated organisations and school governing bodies. In such instances the Registered Person is effectively the committee, and a Responsible Individual (RI) must be nominated on behalf of the organisation. Nominate at least two RIs so if one retires from your committee, the settings can continue operating. Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs can help you review your management structure and help you transition to the most appropriate structure, offering maximum protection for committee members.

**2. Dilynwch eich cyfansoddiad.** Dyma eich set o reolau ar gyfer eich sefydliad. Rhaid i unrhyw benderfyniad mawr, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â newid eich strwythu, ddilyn y rheolau hynny. Dylai fod gan bob aelod o'r pwyllgor gopi.

**3. Ymgymryd â sefydlu pwyllgor.** Mae'n bwysig bod aelodau'r pwyllgor yn cael eu sefydlu'n drylwyr a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau pwysig.

- Defnyddiwch ein templedi yn Camu Allan ([Cam 12](#)): e.e. gweithdrefn sefydlu pwyllgor; disgrifiadau rôl pwyllgor
- Gwylwch ein fideo '[Sut i... ddeall cyfrifoldebau pwyllgor](#)'
- Mae canllawiau 5 munud y Comisiwn Elusennau hefyd yn ddefnyddiol iawn ac yn gryno - [canllawiau 5-munud i ymddiriedolwyr elusennau - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Gall ein Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant (SDBGion) hefyd eich cefnogi i recriwtio mwy o aelodau pwyllgor os yw rhai ar fin ymddeol neu os yw'r niferoedd ychydig yn isel i rannu tasgau'n deg. Gwylwch ein fideo '[Sut i...recriwtio aelodau pwyllgor](#)' [yma](#) a darllenwch sut y bu modd i ni gefnogi Clwb Allysgol Corneli Sger [yma](#). Mae [Cam 12](#) yn Camu Allan yn cynnwys templedi a all helpu.

**4. Adolygwch eich strwythur cyfreithiol** gyda chymorth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Gallwn eich helpu i adolygu a phontio i'r strwythur mwyaf priodol, sy'n cynnig y diogelwch mwyaf posibl i aelodau'r pwyllgor. Mae dod yn Sefydliad Cofrestredig Elusennol (SCE) er enghraifft yn golygu:

- Nad yw'r unigolion dan sylw yn agored i'r posibilrwydd o orfod ateb unrhyw rwymedigaethau'n bersonol os yw'r sefydliad yn methu (ac eithrio mewn achosion o gamwedd difrifol o ran eu hunain).
- Gwella enw da gan ei fod yn cael ei reoleiddio gan y Comisiwn Elusennau.
- Y bydd yn haws recriwtio aelodau pwyllgor gan fod y model hwn yn eu hamddiffyn yn well.

Darllenwch sut y daeth Clwb Plant Amlwch, Cwlai, Clwb Hwyl a Mynydd Helygain i gyd yn SCEau gyda chefnogaeth [yma](#).

**2. Follow your constitution.** This is your set of rules for your organisation. Any major decision, including those relating to changing your structure, must follow those rules. Each committee member should have a copy.

**3. Undertake committee induction.** It is important that committee members have a thorough induction and understand their important roles and responsibilities.

- Use our templates in Stepping Out ([Step 12](#)): e.g. committee induction procedure; committee role descriptions
- Watch our '[How to... understand committee responsibilities](#)' video
- The Charity Commission's 5 minute guides are also really useful and succinct - [5-minute guides for charity trustees - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

Our CBDOs can also support you to recruit more committee members if some are due to retire or numbers are a little low to fairly share tasks. Watch our 'How to... recruit committee members video [here](#) and read how we were able to support Clwb Allysgol Corneli Sger Out of School Club [here](#). [Step 12](#) in Stepping Out includes templates that can help.

**4. Review your legal structure** with the help of Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. We can help you review and transition to the most appropriate structure, offering maximum protection for committee members. Becoming a CIO for example means:

- That the individuals involved are not exposed to the possibility of having to meet any liabilities personally if the organisation fails (except in instances of their own serious wrongdoing).
- Enhanced reputation as it is regulated by the Charity Commission.
- Easier to recruit committee members as this model better protects them.

Read about how Clwb Plant Amlwch, Cwlai, Clwb Hwyl and Halkyn Mountain all became CIOs with support [here](#).

5. [Dowch yn Aelod.](#)

a fydd hyn yn rhoi i chi fynediad i dîm arbenigol o Swyddogion Datblygu Busnes Gofal Plant, sy'n llawn angerdd dros gefnogi'r sector ac sy'n gallu darparu ystod o fentora sgiliau busnes ar bob agwedd ar ddatblygu a chynnal busnes gofal plant. Mae aelodaeth hefyd yn rhoi mynediad i chi at fwletinau wythnosol, ac at Y Bont, sef ein cylchgrawn chwarterol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddatblygiadau polisi a chyfreithiol, canllawiau ac ystod eang o adnoddau busnes a chwarae.

6. Defnyddiwch [Camu Allan](#) sydd ar ein gwefan ac â thempledi o bolisiâu a gweithdrefnau i'ch helpu i gydymffurfio â rheoliadau megis rheoliadau gofal dydd.

7. Allanoli os nad oes gennych ddigon o arbenigedd. Gweler ein canllaw i [ddarparwyr cyflogres](#) yng Ngham 12

8. Darllenwch ein hadnodd, [10 ffordd o helpu i ddiogelu eich](#) atebolwydd sy'n cynnwys awgrymiadau ar amddiffyn eich hun yn iawn a chyfyngu ar rwymedigaethau.

9. **Sicrhewch fod gennych yswiriant digonol.** Darllenwch ein [hadnodd ar ystyriaethau yswiriant](#). Mae'n bwysig bod Clybiau Gofal Plant Allysgol unigol yn adolygu eu hopsiynau wrth brynu neu adnewyddu yswiriant, ac yn gwneud yn siŵr bod yr yswiriant y byddwch yn ei brynu yn cwmpasu'r hyn sydd ei angen arnoch (lle mae gwahaniaethau yn yr hyn y bydd yswirwyr unigol yn eu gynnwys). Ystyriwch hefyd yr 'ychwanegion eraill' y gall yswirwyr eu cynnig, a allai wella profiad y plant yn eich gofal, neu'r gefnogaeth y gallwch ei chynnig i'ch staff.

10. [Cwblhewch yr Asesiad Allysgol \(AGPA\)](#) Cwblhewch yr Asesiad Gofal Plant Allysgol (AGPA) trwy fewngofnodi i [borth y clwb](#). Mae'r asesiad hwn yn erfyn gwirio ansawdd hunan-iechyd syml ar gyfer eich busnes gofal plant, ac i'w weld ar ein gwefan. Gall eich helpu i adnabod yr hyn yr ydych yn ei wneud yn dda a lle y gallech wella. Mae cymorth i gwblhau Cynllun Gweithredu yn dilyn yr OSCA ar gael gan eich Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant. Mae'r AGPA yma yma hefyd yn cefnogi eich Adolygiad Ansawdd Gofal ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru.

5. [Become a Member.](#)

providing access to an expert team of Childcare Business Development Officers, passionate about supporting the sector and who can provide a range of business skills mentoring on all aspects of developing and sustaining a childcare business. Membership also allows you access to weekly bulletins, and to Y Bont, our quarterly magazine, keeping you updated with policy and legal developments, guidance and a wide range of business and play resources.

6. **Access [Stepping Out](#) from our website** with template policies and procedures to help you comply with regulations such as daycare regulations.

7. **Outsource** if you don't have sufficient expertise. See our guide to [payroll providers](#) in Step 12.

8. **Read our resource, [10 ways to help protect your liability](#)**, with suggestions on properly protecting yourselves and limiting liabilities.

9. **Ensure you are sufficiently insured.** Read our [insurance considerations resource](#). It is important for individual Out of School Childcare Clubs to review their options when purchasing or renewing insurance, and to make sure that the insurance you take out covers what you need it to (where there are differences in what individual insurers will cover). And look as at 'added extras' that insurers may offer that could enhance the experience of the children within your care, or the support you are able to offer your staff.

10. **[Complete the Out of School Assessment \(OSCA\)](#)** by logging into the [club portal on our website](#), a simple self-health check quality tool for your childcare business, helping you recognise what you do well and where you could improve. Support to complete an Action Plan following the OSCA is available from your Childcare Business Development Officer. The OSCA also supports your Quality of Care Review for Care Inspectorate Wales.

<p><b>Gwybodaeth bellach</b> <a href="http://www.clybiauplantcymru.org">www.clybiauplantcymru.org</a> <a href="mailto:info@clybiauplantcymru.org">info@clybiauplantcymru.org</a> 029 2074 1000 <a href="#">Facebook</a> <a href="#">Twitter</a> <a href="#">Instagram</a></p>	<p><b>Further information</b> <a href="http://www.clybiauplantcymru.org">www.clybiauplantcymru.org</a> <a href="mailto:info@clybiauplantcymru.org">info@clybiauplantcymru.org</a> 029 2074 1000 <a href="#">Facebook</a> <a href="#">Twitter</a> <a href="#">Instagram</a></p>
---	--